NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Mewnblaniadau cochlear i blant ac oedolion â byddardod difrifol neu fyddardod llwyr

7 Mawrth 2019

Mae mewnblaniad cochlear ar gael ar y GIG fel opsiwn posibl i bobl sy'n ddifrifol fyddar neu'n hollol fyddar os na fydd cymhorthion clyw yn ddigon buddiol iddynt.

Mae mewnblaniadau cochlear yn y ddwy glust ar gael ar y GIG fel opsiwn posibl i blant, ac i oedolion sy'n ddall neu sydd ag anableddau eraill sy'n golygu eu bod yn dibynnu ar eu clyw ar gyfer ymwybyddiaeth ofodol, a hynny dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- maent yn ddifrifol fyddar neu'n hollol fyddar
- nid yw cymhorthion clyw yn ddigon buddiol iddynt
- caiff y mewnblaniadau eu gosod yn ystod yr un llawdriniaeth.

Cafodd diffiniadau o fyddardod difrifol i fyddardod llwyr ac o fudd o gymhorthion clyw eu diweddaru yn y canllaw yn unol ag ymarfer clinigol. Gweler y canllaw neu gofynnwch i'ch meddyg am ragor o wybodaeth.

Dylid cynnal asesiad i gael gwybod a fyddai cael mewnblaniad yn helpu. Dylai hyn gynnwys rhoi cynnig ar gymorth clyw am o leiaf 3 mis, os gall yr unigolyn ei gael. Dylai'r asesiad ystyried unrhyw anableddau neu anawsterau cyfathrebu sydd gan yr unigolyn, a allai olygu na fydd y profion clywed arferol yn addas.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cochlear Implanted Children's Support Group, 0208 876 8605
- National Cochlear Implant Users Association
- The Ear Foundation, 0115 942 1985

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3253-5



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.